



## Rhagarweiniad

Yn y pecyn addysg hwn cewch set o ddeg o gynlluniau gwersi ar gyfer gwasanaethau neu weithdai. Mae'r pecyn yn cynnwys gweithgareddau pellach hefyd yn ogystal ag adnoddau, gweddïau a myfyrdodau ar heddwch. Gan fod y pecyn gwreiddiol wedi bod mor boblogaidd penderfynwyd ei ddiweddarau gan gynnwys tair gwrs ychwanegol, sy'n rhoi adnoddau pellach i addysgwyr i hyrwyddo addysg heddwch.

Mae Addysg Heddwch yn agor y drws mewn sawl maes addysgol gwahanol. Mae'r themâu a'r syniadau a gyflwynir yma yn addas ar gyfer Dinasyddiaeth neu Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac yn rhoi elfen gref o Addysg Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol.

Mae Addysg Heddwch yn gwahodd plant i feddwl beth mae heddwch yn ei olygu iddynt hwy a ble maent yn teimlo'n heddychlon. Mae'r adnoddau'n meithrin sgiliau empathi, sydd mor bwysig i ddatblygiad iachus. Mae'r gweithgareddau pellach yn annog y plant i feddwl am yr hyn y gallent hwy eu wneud i ennill heddwch mewnol a gydag eraill, gan gynorthwyo wrth ddatblygu heddwch rhyngbersonol. Mae'r pecyn hefyd yn annog plant i feddwl yn feirniadol am ryfel ac i ymchwilio i'r gost o safbwynt bywydau pobl. Byddant hefyd yn dysgu sut y gall plant – sydd mor aml yn ddiodefwyr diniwed rhyfel –

gydweithio i sefydlu heddwch. Mae'n galluogi plant i ystyried coffadwriaeth ac i ymchwilio i gysyniadau athronyddol, gan gynnwys pŵer gweithredu mewn modd di-drais.

Mae'r gweithgareddau'n addas ar gyfer ystod eang o oedran, o'r cynradd i flynyddoedd cynnar yr ysgol uwchradd, a gellir eu gwahaniaethu yn ôl y galw. Gall y pecyn hefyd fod yn gymorth i ateb amcanion Cwricwlwm er Rhagoriaeth yr Alban a'r Cwricwlwm Cymreig. Gobeithiwn y byddwch chi a'ch disgyblion yn cael eich ysbrydoli i adeiladu byd mwy heddychlon.

O Ddiwrnod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar 21 Medi i Ddiwrnod Rhyngwladol y Plant sy'n Ddiodefwyr Rhyfel ar 4 Mehefin, ceir cyfleoedd lu yn ystod y flwyddyn ysgol i ddefnyddio'r gwasanaethau a'r gweithgareddau yn y pecyn. Efallai y bydd y calendr amlffydd yn ddefnyddiol i adnabod dyddiadau addas eraill (gweler [www.interfaithcalendr.org](http://www.interfaithcalendr.org)). Gobeithiwn y bydd yr adnodd hwn yn gymorth i sicrhau fod heddwch yn thema allweddol yn addysg ein plant ac yn eich cynorthwyo i ddathlu heddwch a heddychwyr yn eich ysgolion.

Peace Education Network  
[www.peace-education.org.uk](http://www.peace-education.org.uk)

## Rhwydwaith Addysg Heddwch

Mae aelodau'r Rhwydwaith Addysg Heddwch yn perthyn i fudiadau sy'n gweithio ym maes addysg heddwch. Rydym yn rhannu syniadau ac ysbrydoliaeth. Rydym hefyd yn trefnu gweithdai ar gyfer datblygiad proffesiynol aelodau'r rhwydwaith ac addysgwyr eraill sy'n dangos diddordeb, gan gydweithio wrth gynhyrchu adnoddau a threfnu digwyddiadau.

**Am fwy o wybodaeth, gweler [www.peace-education.org.uk](http://www.peace-education.org.uk).**



Ydych chi'n dysgu'ch plant am hawliau dynol?

Ydych chi'n archwilio moeseg rhyfel a thrais?

Ydych chi'n cefnogi'ch plant i ddatblygu sgiliau i ddelio â gwrthdaro?

Mynnwch ysbrydoliaeth o Gymru Dros Heddwch.

Ydych chi'n cynnal dyddiau neu wythnosau heddwch?

Oes canolwyr wedi'u hyfforddi gennych?

**Creu ysgol mwy heddychlon**  
Beth yw ein cam nesaf?

Dysgwch am y Mudiad Ysgolion Heddychlon